

Gweithdrefn Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

Amcan

Diben y weithdrefn hon yw:

- Sicrhau bod y defnydd angenrheidiol o sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn ddiogel ac yn cael ei reoli.
- Sicrhau nad yw staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn cael eu peryglu wrth ddefnyddio sylweddau peryglus tra'n gweithio neu'n astudio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.
- Sicrhau bod staff a myfyrwyr y gallai fod yn ofynnol iddynt ddefnyddio sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn y gweithle yn cael arweiniad, cyfarwyddyd, gwybodaeth a hyfforddiant priodol i ddefnyddio sylweddau o'r fath yn ddiogel.

Cwmpas - Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob aelod o staff, dysgwyr ac ymwelwyr.

Cyfrifoldeb Deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HASAW) yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith ar gyfer cyflogaethion ac unrhyw bobl nad ydynt yn gyflogaethion y gallai ei gweithredoedd neu ei hepgoriadau effeithio arnynt. Mae rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (fel y'u diwygiwyd) yn gosod dyletswyddau penodol ar gyflogwyr a gweithwyr o ran defnyddio sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn ddiogel yn y gweithle. Mae rheoliadau COSHH yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud y canlynol:

- Cynnal asesiad risg addas a digonol o unrhyw weithgareddau gwaith sy'n cynnwys sylweddau peryglus.
- Darparu mesurau i ddileu neu leihau risgiau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Darparu cyfarpar a gweithdrefnau i reoli amlygiad.

Rhif Fersiwn	1
Rhif Diwygiad:	3
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2017

- Monitro amlygiad yn y gweithle lle nodwyd risg sylweddol.
- Cynnal gwyliadwriaeth iechyd lle nodir risg i'r cyflogai.
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth i gyflogaion sy'n defnyddio neu'n agored i sylweddau sy'n beryglus i iechyd.
- Rhoi trefniant ar waith i ddelio â damweiniau, digwyddiadau, gollyngiadau ac argyfyngau.

Diffiniadau

Mae sylwedd sy'n beryglus i iechyd yn cael ei ddiffinio fel:

- Unrhyw sylwedd sy'n cael ei ystyried yn wenwynig iawn, yn wenwynig, yn niweidiol, yn gyrydol, neu'n llidiog o dan ddeddfwriaeth labelu cynnyrch.
- Unrhyw sylwedd y dyrannwyd terfyn amlygiad i'r gweithle ar ei gyfer gan yr HSE fel y nodir yn EH40;
- Cyfryngau biolegol (micro organebau, diwylliannau celloedd neu endoparasitiaid dynol);
- Llwch arall o unrhyw fath, pan fyddant yn bresennol mewn crynodiad mewn aer sy'n cyfateb i 10 mg/m³, neu'n fwy na hynny;
- Unrhyw sylweddau eraill sy'n creu risg i iechyd oherwydd ei briodweddau cemegol neu wenwynig a'r ffordd y bydd yn cael ei ddefnyddio neu ei fod yn bresennol yn y gweithle.

Sut y Gallai Niwed Ddigwydd

Gall sylwedd achosi niwed i berson mewn nifer o ffyrdd yn dibynnu ar y sylwedd sy'n cael ei ddefnyddio a'r broses sy'n cael ei chynnal. Diffinnir llwybrau mynediad fel a ganlyn:

- Anadlu anweddau, sylweddau, llwch neu organebau.
- Llyncu cynnyrch a allai achosi afiechyd neu wenwyno.
- Cyswllt â sylwedd drwy ganiatáu i'r sylwedd fynd drwy'r croen.
- Chwistrellu sylwedd drwy'r croen.

Taflenni Data Diogelwch Deunydd

Mae'n hanfodol bod Taflen Ddata Diogelwch Deunydd (MSDS) yn cael ei darparu a'i chadw fel cofnod ar gyfer pob sylwedd a nodwyd sy'n beryglus i iechyd. Dylai cyflenwyr ddarparu taflenni data diogelwch wrth brynu cynhyrchion a dylid eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n ymwneud â phrynu sylweddau sy'n beryglus i iechyd ofyn am MSDS

Inspirational. Inclusive. Influential.
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Fersiwn	1
Rhif Diwygiad:	3
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2017

a chadw cofnod o'r holl MSDS yn yr adran. Mae MSDS yn darparu gwybodaeth am ddefnydd diogel o'r cynnyrch, y peryglon sy'n gynhenid o'r cynnyrch gan gynnwys unrhyw niwed posibl y gellid ei achosi ac unrhyw fesur rheoli sydd ei angen i leihau'r risgiau o beryglon o'r fath. Bydd yr MSDS yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses asesu risg. Rhaid anfon copiâu o'r holl MSDS at y fîm Iechyd a Diogelwch i'w galluogi i ddiweddaru'r gronfa ddata.

Cynnal Asesiad Risg COSHH

Bydd y fîm Iechyd a Diogelwch yn cynorthwyo rheolwyr llinell i gynnal asesiad risg addas a digonol o'r holl sylweddau sy'n beryglus i iechyd a nodir yn eu hadrannau. Bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal gan ddefnyddio meddalwedd COSHH Essentials sydd ar gael yn y cyfeiriad gwe canlynol <http://coshh-tool.hse.gov.uk/>. Darperir hyfforddiant i'r staff hynny sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau risg gan y fîm Iechyd a Diogelwch. Rhaid cadw asesiadau risg wedi'u cwblhau ar ffeil a rhaid anfon copi at y Rheolwr Iechyd a Diogelwch drwy e-bost.

Bydd y fîm Iechyd a Diogelwch yn cynnal cronfa ddata i gofnodi'r holl asesiadau risg, taflenni data diogelwch a chanllawiau ar fesurau rheoli pob sylwedd sy'n beryglus i iechyd a ddefnyddir yn y coleg. Bydd y gronfa ddata ar gael i'r holl staff perthnasol ar yriant cyffredin.

Bydd y rhan fwyaf o adrannau/cyfadrannau yn defnyddio sylweddau sy'n beryglus i iechyd, rhai ar raddfeydd bach yn unig ond bydd llawer fel peirianeg, dylunio creadigol, gwyddorau ac adeiladu yn eu defnyddio ar raddfa fawr. Rhaid i gopïau o asesiadau risg fod ar gael yn y man gwaith lle mae'r sylwedd sy'n beryglus i iechyd yn cael ei ddefnyddio. Rhaid i unrhyw sylwedd a nodwyd yn ystod y broses asesu risg fel risg uchel (D-E-F) gael cymeradwyaeth y Rheolwr Iechyd a Diogelwch cyn i'r cynnyrch gael ei ddefnyddio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

NODER: Disgwylir y bydd personau sy'n bwriadu defnyddio unrhyw sylwedd risg uchel yn gallu dangos cymhwysedd yn COSHH a byddant yn ymwybodol o ddarpariaethau rheoliadau COSHH.

Atal neu Reoli Amlygiad

Mae rheoliadau COSHH yn mynnu bod amlygiad yn cael ei atal, neu, os nad yw atal yn ymarferol, bod yr amlygiad yn cael ei reoli i'r lefel isaf bosibl ac ym

mhob achos, ei fod islaw'r lefelau sydd wedi'u pennu yn EH40 neu ganllawiau awdurdodol eraill.

Gellir rheoli drwy ddefnyddio'r hierarchaeth ganlynol:

- Newid y gwaith neu'r broses i ddileu'r elfen niweidiol.
- Amnewid y sylwedd niweidiol ar gyfer un llai niweidiol.
- Defnyddio ffurf fwy diogel (e.e. pelenni yn lle powdr).
- Amgáu'r gwaith (cypyrddau anwedd ac ati).
- Rheoli amlygiad drwy beirianeg (LEVs).
- Os yw'n rhesymol neu ar gyfer gwaith risg isel, defnyddio offer amddiffynnol personol (menig, gogls, anadlyddion ac ati).

Lle bynnag y bo modd, bydd amlygiad CAVC yn cael ei atal neu ei leihau gan ddefnyddio'r hierarchaeth reoli uchod, lle bydd risg weddilliol yn dal i fod bydd offer amddiffynnol personol yn cael ei defnyddio gan staff a dysgwyr. Lle mae offer amddiffynnol personol wedi'i nodi fel mesur rheoli drwy'r broses asesu risg, darperir hyfforddiant a chyfarwyddyd i sicrhau bod PPE yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Bydd gwisgo PPE yn cael ei orfodi gan y darlithwyr, y technegwyr a'r rheolwyr llinell.

Monitro'r Amlygiad

Mae'r gwaith o fonitro amlygiad ar gyfer sylwedd sy'n beryglus i iechyd yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod mesurau rheoli, a nodwyd yn ystod y broses asesu risg, yn gweithio a bod rheolaeth ddigonol yn cael ei darparu. Mae'r cyhoeddiad EH40 sy'n ategu rheoliadau COSHH yn darparu terfynau amlygiad i'r gweithle (WEL) ar gyfer llawer o sylweddau sy'n beryglus i iechyd. Lle mae WEL yn bodoli gellir monitro lefelau amlygiad gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau i fesur lefelau amlygiad.

Bydd y tîm Iechyd a Diogelwch yn monitro'n gyfnodol lle bynnag y bo'n ymarferol a lle mae adnoddau'n caniatáu hynny. Lle bo angen monitro manwl neu fwy gwyddonol bydd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn ymgysylltu ag arbenigwr o asiantaeth allanol briodol.

Bydd gwaith monitro'n cael ei wneud ar raddfeydd amser sy'n berthnasol i'r risg a nodwyd.

Gwiliadwriaeth iechyd

Mae Atodlen 6 o reoliadau COSHH yn nodi rhai galwedigaethau/gweithgareddau penodol y mae angen gwiliadwriaeth iechyd meddygol cyfnodol arnynt. Yn ogystal â'r galwedigaethau a nodir yn atodlen 6, mae angen gwiliadwriaeth iechyd briodol hefyd ar gyfer sylweddau o wenwyndra systemig cydnabyddedig. (Sylweddau y gellir eu hanadlu, eu hamsugno drwy'r croen neu eu llyncu, y gwyddom eu bod yn achosi asthma galwedigaethol, y gwyddom eu bod yn achosi dermatitis difrifol).

Er nad yw CAVC yn cyflawni unrhyw weithgareddau a restrir yn Atodlen 6, mae nifer o adrannau neu ardaloedd yn cynnal gweithgareddau gan ddefnyddio sylweddau y gellir eu hanadlu, eu hamsugno drwy'r croen, eu llyncu, achosi asthma galwedigaethol a dermatitis difrifol.

Bydd y broses asesu risg yn nodi peryglon iechyd o'r fath a bydd gwiliadwriaeth iechyd yn cael ei drefnu ar gyfer cyflogaion y nodwyd eu bod mewn perygl.

Bydd y fîm iechyd a Diogelwch yn uniaethu â rheolwyr llinell, cyflogaion sydd mewn perygl a bydd yn anfon manylion at y fîm Adnoddau Dynol a fydd yn cydlynu gwiliadwriaeth iechyd bob blwyddyn.

Arolygu a Phrofi Mesurau Rheoli

Pan fo mesurau rheoli megis awyru gwacáu lleol (LEV) neu gypyrddau anwedd (cyfyngiant) wedi'u rhoi ar waith, rhaid profi ac archwilio rheolaethau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod rheolaeth briodol yn cael ei chynnal:

- Rhaid i ddefnyddwyr wirio systemau'n amlwg bob wythnos er mwyn sicrhau bod y system yn gweithredu'n briodol.
- Archwilio a phrofi statudol bob 14 mis gan berson cymwys (yn achos y coleg y person cymwys yw cwmni yswiriant y coleg).
- Rhaid i systemau hefyd gael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd gan y person cymwys.

Rhaid i dechnegydd y gweithdy gadw cofnodion syml o wiriadau wythnosol a bydd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn cadw cofnodion ar gyfer profion a chynnal a chadw statudol.

Rhif Fersiwn	1
Rhif Diwygiad:	3
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2017

Peryglon Biolegol

Mae rhai rhannau o'r coleg lle gall cyflogeion, dysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd fod yn agored i fân beryglon biolegol. Mae staff Meithrin, Cymorth Cyntaf, Safleoedd a Chymorth Dysgu yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a allai eu hamlygu i wastraff dynol bob dydd. Er ei fod yn cael ei ystyried yn risg isel, bydd angen i'r asesiad risg nodi mesurau rheoli priodol ar gyfer y staff hynny sy'n agored i beryglon biolegol a all gynnwys hyfforddiant, cyfyngiant, cyngor ar hylendid, PPE a rhaglenni brechu.

Gwaredu Gwastraff Peryglus

Mae gwaredu gwastraff peryglus yn cael ei reoli gan Reoliad Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005. Rhaid gwaredu unrhyw wastraff peryglus a gynhyrchir gan CAVC yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod. Mae'r adran Ystadau yn cydlynu'r holl waredu gwastraff peryglus.

Dyddiad cymeradwyo:	Mawrth 2017
Cymeradwywyd gan:	Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
Dyddiad adolygu:	Mawrth 2019

Rheolwr Cyfrifol:	Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Pharhad Busnes
Arweinydd Gweithredol:	Prif Swyddog Gweithredu
Hygyrch i Fyfyrwyr:	Ydy

Rhif Fersiwn	1
Rhif Diwygiad:	3
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2017